Darlith 'Cynllunio Triniaethau' gan Dr Meic Lloyd Hughes

Adroddiad gan Gareth Rhun

Nos Fercher, Medi 12, ymgasglodd criw o'r Gymdeithas, yn fyfyrwyr ac yn ddeintyddion profiadol, i Westy'r Imperial yn Llandudno i wrando ar ddarlith ar gynllunio triniaethau gan Dr Meic Hughes.

Wedi gwledda ar y bwffe poeth a ddarparwyd, rhannwyd yr aelodau'n grwpiau bychain i bori dros luniau, modelau a radiograffau o achosion cymhleth wedi eu casglu a'u darparu gan y darlithydd. Wrth drafod triniaethau posibl ar eu cyfer, manteisiodd pawb ar y cyfle i ddefnyddio termau Cymraeg ac yr oedd Dr J Elwyn Hughes wrth law i gyfieithu termau eraill i'w hychwanegu at ein geirfa.

Wedi peth amser o grafu pen, cafwyd cyflwyniad gan Dr Meic Hughes yn dangos y canlyniadau trawiadol y llwyddodd o i'w cael wrth drin y gwahanol gleifion.

Diolchwyd i Dr Stephen Keen am drefnu'r noson ac i Dr Meic Hughes am roi noson hynod o ddifyr i ni. Edrychwn ymlaen at ddychwelyd i Landudno ar gyfer y gynhadledd flynyddol ymhen mis.